

ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Newidiadau i ysgolion a lleoliadau o 1 Medi 2021 fel rhan o'r broses o ddileu cyfyngiadau penodol mewn cysylltiad â COVID-19

Rhaid anfon yr holl Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi eu cwblhau at flwch

CRIA@llyw.cymru

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

O ran newidiadau yn ein Canllawiau Gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2021.

Mae'n adeiladu ar y dysgu wyneb yn wyneb y mae dysgwyr wedi gallu ei wneud mewn ysgolion a lleoliadau ers i bob ysgol yng Nghymru ailagor yn llawn ym mis Ebrill 2021 yn dilyn diwedd tymor y Pasg, ac wedi'i osod yng nghyd-destun y gwelliant parhaus yn y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Amlinellir y cynigion cyffredinol yn gryno isod. Rydym yn derbyn yn llwyr fod gan unrhyw newid i drefniadau addysg effaith amrywiol ac eang ar wahanol grwpiau gan gynnwys dysgwyr, staff, teuluoedd a chymunedau.

Cynnig

Ailagorodd ysgolion yn llawn i ddysgwyr ym mis Ebrill 2021 er bod rhai cyfyngiadau wedi effeithio ar allu ysgolion i weithredu diwrnod ysgol arferol gydag ystod lawn a chyflawn o gymorth a gwasanaethau. Roedd y cyfyngiadau hyn yn cynnwys defnyddio gorchuddion wyneb gan staff a dysgwyr uwchradd ar draws adeiladau ysgolion ac mewn ystafelloedd dosbarth, cynnal grwpiau cyswllt llym (ac amrywio amseroedd dechrau a gorffen yn yr ysgol i hwyluso hyn), ceisio cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo modd, a gwell cyfundrefnau glanhau.

Ceir crynodeb isod o'r newidiadau o ddechrau blwyddyn ysgol 2021-22.

- O ddechrau'r tymor newydd, ni fyddwn bellach yn argymhell gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer staff neu ddysgwyr. Fodd bynnag, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am annog eu defnydd mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, megis mewn ardaloedd cymunedol. Dylai dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau uwchradd barhau i wisgo gorchuddion wyneb wrth deithio ar gludiant ysgol pwrpasol. Fel rhan o broses asesu risg ysgol, a gefnogir gan swyddogion iechyd y cyhoedd, ac mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol, bydd ysgolion a lleoliadau yn gallu penderfynu a yw gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol yn unrhyw le ar safle'r ysgol yn seiliedig ar amgylchiadau a chyd-destun lleol yr ysgol ei hun. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, ni ddylid ei atal.

- Bydd ysgolion a lleoliadau yn dychwelyd i'w hamseroedd sesiynau arferol ar gyfer y tymor newydd, yn dilyn datgymhwyso dros dro y Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion 2009 o haf 2020 tan haf 2021.
- Mae angen i ysgolion a lleoliadau gynllunio ar y sail na fydd gan grwpiau cyswllt rôl i'w chwarae mwyach ar ddechrau tymor yr hydref, mae hyn yn gyson â'r dull sy'n cael ei ddefnyddio mewn gofal plant.

Nid oes angen grwpiau cyswllt/swigod mwyach. Bydd Profi, Orlhain, Diogelu (TTP) yn arwain ar nodi cysylltiadau agos staff a dysgwyr sydd wedi profi'n bositif, gyda chymorth trafodaethau gydag ysgolion a lleoliadau ac unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ar gael gan y lleoliad. Bydd y swyddog olrhain cysylltiadau TTP yn casglu gwybodaeth gan y rhai sy'n profi'n bositif mewn lleoliad a chael gwybod pwy yr oeddent mewn cysylltiad agos â nhw. Ar gyfer dysgwyr byddant yn canolbwyntio ar gysylltiadau cymunedol ac unigolion y mae'r plentyn yn adrodd eu bod wedi rhyngweithio'n agos â nhw. Ni fydd mwyafrif y dysgwyr yn y dosbarth/lleoliad yn cael eu nodi fel cysylltiadau agos. Yn hytrach, efallai y cynghorir yr ysgol i fynd ati i roi gwybod i rieni a staff am y sefyllfa a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, yn seiliedig ar gynghor TTP.

- Mae angen i gyfundrefnau glanhau fod yn gymesur ac yn gyson ag unrhyw glefyd trosglwyddadwy arall. Ni fydd angen mwyach i ysgolion a lleoliadau neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer glanhau dwys. Fodd bynnag, os bydd achos wedi'i gadarnhau yn yr ysgol/lleoliad, bydd glanhau'r ardal gyfagos yn ddwfn yn parhau i fod o gymorth o ran lleihau'r trosglwyddiad.

Yn ogystal â'r newidiadau uchod, [cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 29 Gorffennaf](#), o 7 Awst, na fyddai'n rhaid i bob oedolyn sydd wedi cael eu brechu'n llawn na phlant dan 18 oed hunanynysu mwyach os nodir eu bod yn gysylltiadau agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif am Covid-19. Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ystyried y newidiadau hyn gan eu bod wedi'u cynnwys yn yr Asesiadau Effaith a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnodau adolygu 21 diwrnod, a gellir dod o hyd i'r rhain [yma](#).

Bydd [Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau](#) Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi fframwaith a chanllawiau ategol o ddechrau tymor yr hydref. Bydd y *Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Covid-19 Lleol* yn galluogi ysgolion a lleoliadau i deilwra rhai mesurau ymyrryd i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd yn lleol. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'n gyflym ar hyn o bryd.

Wrth wneud yr asesiad hwn hoffem gyfeirio at ymgynghoriadau *Coronafeirws a Fi* Comisiynydd Plant Cymru gyda phlant a phobl ifanc a'r [adroddiad](#) diweddaraf. Mae'r ail ymgynghoriad ac adroddiad (Ionawr 2021) yn cyflwyno barn a phrofiadau 19,737 o blant a phobl ifanc 3-18 oed am y cyfyngiadau COVID.

Mae'r adroddiad yn amlinellu yn ei ganfyddiadau cryno fod bywyd wedi bod yn anodd ar y cyfan i bob grŵp oedran gyda llawer yn mynegi rhwystredigaeth ac weithiau dicter am effaith y pandemig ar eu bywydau. Siaradodd llawer am weld eisiau eu ffrindiau, athrawon, ysgolion a theuluoedd. Dywedodd 30 y cant o bobl ifanc 17 a 18 oed eu bod yn poeni 'y

rhan fwyaf o'r amser'; dywedodd dysgwyr hŷn eu bod yn teimlo'n llai hyderus am ddysgu. Roedd dros eu hanner yn mwynhau dysgu gartref ar eu cyflymder eu hunain, ond roedd llawer yn poeni am syrthio ar ei hôl hi gyda'u dysgu. Gwelir bod lefelau hyder a chymhelliant o ran addysg yn gostwng gydag oedran.

Yn y ddau ymgynghoriad gwelwn fod plant sy'n wynebu mwy o rwystrau rhag cael mynediad at eu hawliau hefyd wedi wynebu mwy o anawsterau ar gyfartaledd na'u cyfoedion. Nododd llawer o blant a phobl ifanc brofiadau cadarnhaol hefyd yn y ddau ymgynghoriad, gan gynnwys mwynhau treulio amser gartref a chael cymorth da gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid.

Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd gan Plant yng Nghymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, ym mis Gorffennaf 2021, gyda phlant a phobl ifanc i gael eu hadborth ar sut mae ysgolion wedi gweithredu ers ailagor i bob disgybl. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fod gwisgo gorchuddion wyneb drwy gydol y diwrnod ysgol, yn enwedig tra'n eistedd mewn ystafell ddosbarth am fwyaf helaeth o'u hamser, yn gwneud iddynt deimlo'n flinedig, yn sâl ac yn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio'n briodol am gyfnodau estynedig. Ychwanegodd rhai fod gorchuddion wyneb yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel yn gyffredinol, ond nad oeddent bob amser yn cael eu gwisgo'n iawn ac mae'n ymddangos bod ymagwedd anghyson at eu defnydd ar draws ysgolion a lleoliadau yng Nghymru.

O ran hunan-ynysu, teimlai'r rhan fwyaf o ddisgyblion nad yw rheolau presennol ynghylch swigod neu grwpiau cyswllt yn gweithio. Y rheswm am hyn yw bod ysgolion, ar y cyfan, yn ofalus iawn pan fydd disgybl yn profi'n bositif ac mae plant yn gorfod hunanynysu er nad ydynt yn gwybod neu ddim wedi dod i gysylltiad â'r disgybl yr effeithir arno. Amharwyd yn ddifrifol ar y dysgu gyda disgyblion yn gorfod newid o'r ysgol i ddysgu ar-lein gartref, gyda'r un grwpiau blwyddyn yn yr un ysgolion weithiau yn cael eu heffeithio sawl gwaith. Mae disgyblion wedi datgan nad yw'r profiad o ddysgu ar-lein mor effeithiol ag yn yr ystafell ddosbarth ac yn aml mae athrawon wedi gorfod cydbwyso dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein ar yr un pryd, gan ddibynnu ar ba grwpiau oedd yn hunan-ynysu ar unrhyw adeg benodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu nad yw amseroedd dechrau gwahanol mewn ysgolion a lleoliadau yn gweithio gan fod yr arfer hon yn amharu ar amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol, gydag effaith andwyol ar glybiau brecwast, ac mae amser cinio'n aml yn cael ei gwtogi a disgyblion yn cael eu gollwng o'u gwersi'n gynnar dim ond i orfod eistedd ar gludiant ysgol am gyfnodau estynedig. Ychwanegodd rhai pobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy diogel gan fod amseroedd dechrau a gorffen gwahanol wedi lleihau nifer cyffredinol y disgyblion sy'n symud o amgylch yr ysgol ar yr un pryd.

Mae Estyn wedi cyhoeddi canfyddiadau ei waith ymgysylltu ag [ysgolion cynradd](#) ac [ysgolion uwchradd](#) ym mis Mehefin 2021. I grynhoi, adroddodd arweinwyr ysgolion fod y cyfnod diweddaraf o ddysgu o bell wedi cael effaith andwyol ar les disgyblion. Felly, mae symud i ffwrdd oddi wrth grwpiau cyswllt ysgol yn debygol o wella lles ac iechyd meddwl

cyffredinol gan na fydd angen i ddisgyblion hunanynysu mor aml nac ar yr un sail ag ar hyn o bryd.

Egwyddorion trosfwaol yn yr asesiad hwn

1. Dylai plant a phobl ifanc fod yn ddiogel, cael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu
2. Dylai plant allu mynd i'r ysgol a lleoliadau gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg)
3. Dylai plant allu mynd allan i chwarae a gwneud ymarfer corff
4. Dylid caniatáu i blant iau, dan 12 oed, gymysgu'n rhydd
5. Dylai gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd barhau i weithredu a gallu cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb lle mae angen hyn ar y plentyn/teulu. Efallai y bydd angen cymorth ar deuluoedd difreintiedig i gael mynediad at wasanaethau ar-lein – gan gynnwys cit TG a/neu 'ddata'.
6. Dylai plant ag anghenion ychwanegol dderbyn yr asesiadau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Gallai hyn gynnwys swigod cymorth teulu/gwasanaethau ehangach i sicrhau nad oes unrhyw deulu'n cael ei adael i straffaglu ar eu pen eu hunain; gall olygu bod grŵp mwy yn mynd allan i wneud ymarfer corff i gefnogi'r plentyn
7. Ni ddylai unrhyw blentyn fynd heb fwyd
8. Dylai cymorth i rieni a gofalwyr, gan gynnwys mamau a rhieni newydd, fod ar gael drwy ystod o ddulliau
9. Dylid cynnal asesiadau datblygu blynyddoedd cynnar arferol (lle bo angen cyswllt wyneb yn wyneb gyda mesurau diogelu COVID-19 ar waith) a gosod ymyriadau ar waith (e.e. lleferydd ac iaith, golwg a chlyw)
10. Dylid cyfleu'r uchod i gyd yn glir, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc
11. Mewn amgylchiadau lle mae lefel 4 yn cael ei hannog gyda dysgu o bell fel elfen allweddol:
 - Dylid blaenoriaethu plant bregus drwy ddull amlasiantaethol.
 - Dylai plant ag anghenion dysgu/ychwanegol penodol fod â chynllun cymorth ar waith.
 - Dylai plant gael pecyn TG a data digonol ar gael i sicrhau mynediad at wersi ac adnoddau ysgol ar-lein yn ogystal â bod yn gallu cysylltu â'u ffrindiau.
 - Dylid cynyddu gwasanaethau ieched meddwl y trydydd sector, mewn ysgolion ac ar-lein. Dylid gweithredu dull sy'n seiliedig ar risg er mwyn sicrhau bod pobl ifanc bregus yn parhau i gael eu cefnogi gan wasanaethau ieched meddwl y GIG.
 - Dylid cynnig cymorth ychwanegol i blant o deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf ochr yn ochr â'u rhieni.
 - Dylid atgoffa pawb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn gwybod ble i fynd am gymorth neu i siarad am bryderon.
 - Dylai cyfathrebu â phlant a phobl ifanc fod mewn iaith y gallant ei deall yn glir, bod yn gysur ac egluro'n glir beth sy'n digwydd a pham.

Nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan [BBC Plant Mewn Angen](#) yn gynharach yn y pandemig gyfres o themâu sy'n dangos sut roedd Covid-19 yn effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n wynebu heriau yn eu bywydau, a fyddai'n gyffredin mewn lleoliadau addysgol:

1. Unigedd – roedd plant a theuluoedd yn gweld eisiau cysylltiadau personol, perthnasoedd a chefnogaeth gan oedolion a chyfoedion dibynadwy y tu allan i'r cartref.
2. Mwy o heriau lles emosiynol ac iechyd meddwl - roedd y pandemig yn effeithio ar faterion iechyd meddwl presennol ac roedd materion newydd yn dod i'r amlwg i blant a'u rhieni. Mae pryder, ofn a straen yn bryderon penodol.
3. Pwysau ar berthynas deuluol - roedd teuluoedd dan bwysau, o anawsterau'n ymdopi â straen a phryder i argyfwng. Roedd gwrthdaro ac achosion o berthynas anodd yn cynyddu, a llai o seibiant i blant a rhieni.
4. Mwy o amlygiad i niwed - roedd plant yn wynebu mwy o risgiau o fewn teuluoedd a'r tu allan i'r cartref, e.e. gyda mwy o amser ar-lein ac yn methu â chael mynediad i fannau diogel.
5. Anghenion sylfaenol yn anos eu diwallu - roedd plant a theuluoedd yn teimlo'n llwglyd ac yn dioddef mwy o galedi ariannol. Daeth mynediad digidol yn angen sylfaenol yn y cyfnod clo.
6. Risgiau i les corfforol - roedd lles corfforol plant mewn perygl drwy lai o faeth neu weithgarwch corfforol ar gyfer ffitrwydd, i'r rhai â chyflyrau iechyd, o'r pandemig ei hun.

Cyhoeddodd y Gymdeithas Plant [adroddiad](#) a oedd yn nodi y gallai cau ysgolion, er ei fod yn ffordd bwysig o atal lledaeniad COVID-19, arwain at fwy o arwahanrwydd cymdeithasol i bobl ifanc. Er bod llawer o ysgolion yn darparu dysgu ar-lein, mae plant na all eu teuluoedd fforddio cael gliniaduron, ffonau neu gysylltiadau rhyngrwyd neu ffôn digonol yn debygol o golli allan ar ddysgu hanfodol. Ar gyfer plant nad ydynt yn gallu cael mynediad at unrhyw e-ddysgu o'r fath y mae ysgolion yn ei ddarparu, mae perygl ychwanegol hefyd o stigma neu gywilydd. Bydd costau byw yn cynyddu i deuluoedd gan fod mwy o blant gartref, tra bod enillion rhieni yn debygol o ostwng, sy'n golygu y bydd teuluoedd yn cael trafferth gyda chost bwyd a hanfodion eraill. Mae mwy o gyfrifoldebau gofal plant i rieni tra nad yw plant yn yr ysgol, a heb y posibilrwydd o gymorth gan rwydweithiau teuluol (fel neiniau a theidiau), hefyd yn debygol o roi straen ariannol ychwanegol ar deuluoedd. Mae'n nodi y bydd cadw ysgolion ar agor, ac felly lleihau'r angen i hunanynysu, yn helpu i amddiffyn plant a'u teuluoedd rhag wynebu ansicrwydd ariannol o ganlyniad i'r argyfwng ac i atal tlodi plant rhag cyrraedd y lefel uchaf erioed.

2. Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Rhif Erthygl	Disgrifiad	Cysylltiad â phenderfyniadau
2	Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag	Gall colli mynediad i ddarpariaeth ar y safle, trefn reolaidd a chyswllt cymdeithasol effeithio'n andwyol ar blant a phobl ifanc. Un o nodau craidd y newidiadau a gyflwynwyd o fis Medi yw lleihau nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd yn dal i fod yn ofynnol i rai dysgwyr hunanynysu, os

	yw eu barn neu eu dweud, beth bynnag fo'u cefndir teuluol.	byddant yn cael prawf positif, er mwyn cyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws.
3	Rhaid i fuddiannau gorau'r plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a cham gweithredu sy'n effeithio ar blant.	Gellir gweld yr erthygl hon yn yr egwyddorion a nodir yn y fframwaith penderfynu ar gyfer y sector addysg, sef: • Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff. • Parhau â'n cyfraniad i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad COVID-19. • Hyder rhieni a gofalwyr, staff a dysgwyr – yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant gynllunio ymlaen llaw. • Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, i gael canllawiau ar waith i gefnogi mesurau fel ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau diogelu ehangach. Er na chyfeirir yn benodol at CCUHP yn y ddogfen fframwaith penderfyniadau cyhoeddus, mae dylanwad hawliau plant yn ddi-gwestiwn yn y dull sy'n cael ei ddefnyddio. Mae rhoi lles dysgwyr ar frig ac yn ganolbwynt i'r holl benderfyniadau ynglŷn ag ymateb addysg i COVID-19 yn ganolog i hynny. Mae hyn ochr yn ochr â datblygu trefniadau sy'n ceisio dechrau proses o liniaru effeithiau negyddol 'y cyfnod clo' ar blant a phobl ifanc, tra'n cydnabod anghenion penodol grwpiau penodol o ddysgwyr. Bydd y newidiadau a gyflwynir o fis Medi yn ceisio lleihau nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu. Mae mesurau'n cael eu llywio gan ganllawiau gweithredol, cyngor gan yr HSE ac yn seiliedig ar gyngor gwyddonol a thechnegol i Lywodraethau Cymru a'r DU. Er na fydd gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth o fis Medi ymlaen, gall ysgolion annog eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol/ardaloedd cymunedol. Gall unigolion hefyd barhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb, er enghraifft os yw hyn yn helpu i leihau pryder.

		Canfu adroddiad gan NBC News fod ysgolion yn UDA yn ei chael hi'n anodd addysgu myfyrwyr o bell. Adroddodd un sefydliad profi cenedlaethol fod myfyrwyr cyffredin graddau 3-8 a gymerodd asesiad mathemateg yn sgorio 5 i 10 pwynt canradd yn is na myfyrwyr a gymerodd yr un prawf y llynedd, gyda myfyrwyr Du, Hispanig a thlawd yn disgyn hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi. Bydd dileu grwpiau cyswllt yn ysgolion Cymru yn gweithio i sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn yr ysgol ac nid gartref.
4	(gweithredu'r Confensiwn) Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau ei hawliau drwy greu systemau a phasio cyfreithiau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant.	GORCHUDDION WYNEB: Roedd adroddiad diweddaraf y Grŵp Cyngor Technegol ar orchuddion wyneb yn cydnabod bod angen i ni ystyried cymryd camau tuag at ddull lleol a seiliedig ar risg o ran defnyddio ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol, megis gorchuddion wyneb. Rhaid ceisio cydbwysu'r niwed sy'n gysylltiedig â defnydd estynedig mewn ystafelloedd dosbarth yn erbyn y manteision canfyddedig o ddiogelu rhag trosglwyddo firysau. Wrth ddileu'r argymhelliad o wisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer staff neu ddysgwyr, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am annog eu defnydd mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, megis mewn ardaloedd cymunedol ac ar gludiant ysgol penodedig. Fel rhan o broses asesu risg yr ysgol, gyda chefnogaeth swyddogion iechyd y cyhoedd ac mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol, byddwch yn gallu penderfynu a yw gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol yn seiliedig ar amgylchiadau a chyd-destun lleol eich ysgol ei hun. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, ni ddylid ei atal. Fel rhan o'n sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc, cawsom sylwadau bod gorchuddion wyneb wedi stigmatiddio ac amlygu anableddau cudd gan y bydd disgyblion yn cael eu herio gan staff, ac weithiau disgyblion eraill, i esbonio pam nad ydynt yn gwisgo gorchudd wyneb, neu wedi'u heithrio.

		Maent yn gorfod egluro hyn yn aml ac yn rheolaidd, ac mae hynny'n ychwanegu at eu straen a'u hymwybyddiaeth feddyliol. Dywedwyd wrthym y byddai'r disgyblion hyn yn aml yn gwisgo gorchudd wyneb i gael bywyd tawel, ac i osgoi sylw neu gael eu holi, er bod ganddynt resymau dilys dros beidio â'u gwisgo. Mae hyn yn ychwanegu at eu anesmwythid a'u gofid. AMSEROEDD DECHRAU A GORFFEN GWAHANOL: Argymhellwyd amseroedd dechrau a gorffen gwahanol yn wreiddiol fel rhan o'r mesurau rheoli er mwyn helpu i reoli grwpiau cyswllt yn fwy effeithiol. Er mwyn galluogi amseroedd dechrau a gorffen gwahanol dros dro, datgymhwyswyd y rheoliadau newid amserau sesiynau ysgolion drwy hysbysiadau datgymhwyso dros dro a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Coronafeirws 2020. Rydym yn deall mewn rhai ysgolion a lleoliadau, mae amseroedd cinio wedi'u lleihau'n sylweddol ac mae amseroedd egwyl wedi'u lleihau neu eu dileu. Mae amseroedd gorffen cynnar hefyd yn golygu bod plant yn cymysgu y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Rydym yn cyngori awdurdodau lleol y dylai ysgolion ddechrau cynllunio i ddychwelyd i'w hamseroedd sesiynau arferol i baratoi ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi, ac nad yw'n fwriad gennym gyhoeddi hysbysiadau pellach o'r math hwn ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth gwrs pe bai sefyllfa iechyd y cyhoedd ar y pryd yn cyfiawnhau hynny. Gall amseroedd dechrau a gorffen gwahanol gael effaith andwyl ar iechyd meddwl a lles disgyblion gyda llai o amser cinio, amseroedd dechrau a gorffen afreolaidd i'r diwrnod ysgol ac, fel yr esboniwyd gan un disgybl yn y sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc (fel y disgrifiwyd yn gynharach), mae gwersi wedi bod yn gorffen yn gynnar (ac felly maei profiad dysgu gwerthfawr yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei golli) dim ond i ddisgyblion eistedd ar gludiant ysgol yn aros i eraill ymuno ar gyfer y daith adref ar y bws.
--	--	--

		Bydd straen ychwanegol hefyd yn cael ei roi ar staff mewn ysgolion sy'n gorfod trefnu a chadw at gyfnodau byrrach ar gyfer amser cinio a gwersi, tra'n parhau i orfod ymdrin â'r cwricwlwm yn llawn ac yn y ffordd orau y gallant. GRWP IAU CYSWLLT YSGOLION: Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud wrth gyflwyno'r rhaglen frechu ac erbyn diwedd mis Medi bydd pawb sy'n gweithio yn ein system addysg wedi cael cynnig y ddau frechiad, gan wella ein hamddiffyniad rhag y feirws. Mae hyn, ynghyd â data sy'n dod i'r amlwg, yn awgrymu erbyn i ysgolion ddychwelyd ar ôl gwyliau'r haf y gallwn symud y tu hwnt i'r dull cyfyngol iawn o ddelio â COVID sydd wedi bod yn angenrheidiol hyd yma. Gwyddom fod ysgolion yn penderfynu ynysu swigod cyfan yn hytrach na nodi cysylltiadau uniongyrchol a gwyddom fod hunanynysu wedi cael (ac yn cael) effaith niweidiol iawn ar addysg. Wrth gyhoeddi nifer y disgyblion a oedd yn bresennol yn yr ysgol yng Nghymru¹, roedd 5% o'r holl ddisgyblion ar gyfartaledd yn absennol oherwydd rheswm hysbys yn gysylltiedig â COVID-19 rhwng 28 Mehefin a 2 Gorffennaf. O 2/11/21 – 2/7/21, roedd 23,166 o blant yr wythnos ar gyfartaledd yn dysgu o bell oherwydd rhesymau COVID-19 yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2021, ysgrifennodd y Comisiynydd Plant at y Gweinidog Addysg, gan amlinellu nifer o faterion sy'n codi i blant mewn ysgolion, gan gynnwys y niwed sy'n gysylltiedig â hunanynysu. Roedd hefyd yn herio'r ffordd 'anghymesur' y caiff mesurau eu cymhwyso i bobl ifanc mewn ysgolion, a'r annhegwch canfyddedig o gymharu â'r rhyddid cymharol sy'n cael ei roi i'r boblogaeth oedolion ar yr un pryd. Yn ogystal ag ystyriaethau iechyd y cyhoedd, mae angen ystyried effaith y mesurau rheoli presennol ar les plant a phobl ifanc hefyd. Gall amgylchedd
--	--	---

¹ nifer y disgyblion sy'n bresennol yn yr ysgol yng Nghymru ddydd Mercher 7 Gorffennaf am 9:30am

		yr ysgol ddarparu amrywiaeth o fanteision a chyfleoedd yn ogystal â dysgu, rhywbeth y mae mesurau rheoli COVID-19 wedi amharu arno. Mae hyn yn cynnwys cymysgu â charfan ehangach o blant na'u swigod, defnyddio clybiau brecwast ac ar ôl ysgol ar gyfer rhyngweithio a dysgu mwy anffurfiol, amseroedd chwarae awyr agored mwy arferol ac egwyl amser cinio. Mae'n rhaid i'r mesurau a sefydlwn nesaf fod o fudd amlwg i'r dysgwyr, yn enwedig pan y gall y cyfyngiadau (gorchuddion wyneb, ynysu, grwpiau cyswllt cyfyngedig, cau ysgolion) gael effaith andwyol ar eu dysgu yn ogystal â'u lles. Yn ein camau nesaf felly mae angen i ni ddangos ein bod wedi cydbwyso'r manteision a'r beichiau i'r unigolyn yn ogystal â'r boblogaeth. Fel ffordd o liniaru rhai o'r materion hyn ac wrth gydbwyso'r niwed i blant, y disgwyliad fydd symud oddi wrth grwpiau cyswllt/swigod ar ddechrau tymor yr hydref gan ddisodli hyn gyda dull doethach o olrhain cysylltiadau. Ni ddylai hyn roi baich ychwanegol ar ysgolion a lleoliadau, mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir yng nghanllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru. Byddai disgwyliad o hyd bod cynlluniau eistedd a chofnodion presenoldeb yn chwarae rhan bwysig o ran darparu gwybodaeth i gefnogi olrhain cysylltiadau. Mae'r newid yn y dull o ymdrin â grwpiau cyswllt/swigod hefyd wedi'i drafod gyda'r Prif Swyddog Meddygol sydd wedi cytuno bod hwn yn ffordd synhwyrol ymlaen o ystyried y cyd-destun presennol a phwyso a mesur y niwed.
6	Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.	Mae'r egwyddor allweddol sy'n rhoi diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r hawliau hyn. Mae'n fwy nag aros yn ddiogel ac yn iach, ond hefyd am ddarparu dull ystyriol a phwyllog i ddechrau mynd i'r afael â'r effeithiau

		dysgu a datblygiadol negyddol a brofwyd yn ystod 'y cyfnod clo'. Mae canllawiau gweithredol a'r canllawiau dysgu i gynyddu gweithrediadau ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn cwmpasu dull cynhwysfawr a diogel o sicrhau iechyd a lles dysgwyr ac ymarferwyr yn amgylchedd yr ysgol. Bydd dileu amseroedd dechrau/gorffen gwahanol a'r ffaith nad yw gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth mwyach yn fantais gadarnhaol i gyfran y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Mae profion llif unffordd (LFT) arferol yn parhau i fod ar gael ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 ac i fyny, ynghyd â chanllaw pwrpasol i bobl ifanc ar ddefnyddio profion LFT, er mwyn rhoi hyder a sicrwydd i ddysgwyr eu bod yn ddiogel a'u bod yn gallu nodi'r risg o drosglwyddo asymptomatig yn gyflym a chymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu eu hunain a phawb o'u cwmpas. Bydd dileu grwpiau cyswllt (y cyfeirir atynt hefyd fel 'swigod') yn anelu at leihau nifer y bobl sy'n gorfod hunanyysu. Bydd hyn yn ei dro yn golygu y bydd ymarferwyr yn gweld gostyngiad sylweddol yn yr angen am ddysgu o bell a'r heriau i'r gweithlu o reoli darpariaeth o bell ac ar y safle ochr yn ochr. Bydd ymarferwyr yn ystyried anghenion eu holl ddysgwyr, y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rheini, a byddant yn ystyried dibenion dysgu ac yn pwysu a mesur eu blaenoriaethau, gan ddefnyddio ystod eang o ganllawiau cwricwlwm mewn ffordd hyblyg i'w cefnogi yn y gwaith hwn.
12	Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif	Mae'r ddau ymgynghoriad 'Coronafeirws a fi', ynghyd â thrafodaethau gyda'r Senedd leuencid, y sesiynau a gynhaliwyd yn uniongyrchol gyda dysgwyr (wedi'u hwyluso gan Plant yng Nghymru (x2) a Chomisiynydd Plant Cymru), ystyriaeth o ohebiaeth / cwestiynau dysgwyr, a mewnbynnau gan y rhai sy'n gallu cynrychioli barn dysgwyr (e.e. rhieni, ymarferwyr a Chomisiynydd Plant Cymru) wedi helpu i

		sicrhau bod barn plant wedi'i hystyried yn y broses o gynyddu gweithrediadau ysgolion a lleoliadau hyd yma. Mae'r canllawiau dysgu i ysgolion a lleoliadau yn dweud yn glir y dylai lles fod wrth wraidd yr holl waith i ailgydio mewn dysgwyr. O fewn hyn mae'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser i ddysgwyr drafod a mynegi eu profiadau, a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod rhywun yn gwrando arnynt a'u clywed.
14	(rhyddid meddwl, cred a chrefydd) Mae gan bob plentyn yr hawl i feddwl a chredu'r hyn y mae'n eu dewis a hefyd i ymarfer eu crefydd, cyn belled â'u bod nhw ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Rhaid i lywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau rhieni i arwain eu plentyn wrth iddynt dyfu i fyny.	Ni fydd yr un o'r penderfyniadau polisi a glustnodwyd uchod ac yn Adran 1 yn cael effaith benodol o ran rhyddid meddwl, cred a chrefydd. Mae'r canllawiau dysgu yn amlinellu bod angen i ymarferwyr ystyried sut i gefnogi pob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd o bosib yn bryderus ynghylch dychwelyd ar ôl cyfnod o unigedd, y rhai sydd o bosib wedi treulio cyfnod estynedig mewn amgylchedd cartref nad yw'n cefnogi eu credoau, neu sy'n gweld y posibilrwydd o ddychwelyd yn fygythiol; a'u cefnogi gyda'r broses o integreiddio i gael addysg mewn lleoliad corfforol. Mae sgysiaau am sut mae dysgwyr yn teimlo yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod hwn ac mae staff mewn ysgolion a lleoliadau yn cael eu harwain i annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon.
17	Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall.	Roedd canlyniadau'r arolwg diweddaraf 'Coronafeirws a fi' yn gofyn sut y dewisodd plant a phobl ifanc gael gafael ar ffynonellau gwybodaeth. Ar gyfer plant 7-11 oed atebwyd: - drwy deulu (82%), ac yna'r teledu (58%). Dim ond 4% o'r ymatebwyr a nododd nad oeddent yn cael unrhyw wybodaeth. Mae gan bobl ifanc sy'n cymryd yr arolwg 12-18 ffynonellau gwybodaeth tebyg (73% a 61% yn y drefn honno) ond maent yn fwy tebygol o fod yn cael gwybodaeth ar-lein o wefannau newyddion, apiau a chyfrifon. Mae rhai agweddau ar y trefniadau gweithredol ar gyfer ysgolion (er enghraifft, defnyddio

		gorchuddion wyneb a grwpiau cyswllt) yn uchel eu proffil ac yn cael sylw helaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau. Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau mynediad parhaus at wybodaeth ddibynadwy a hygyrch gan gynnwys negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u targedu'n benodol at blant a phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni / gofalmwr; negeseuon wedi'u targedu at gymunedau addysg a llythyr 'diwedd tymor' gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg at benaethiaid pob ysgol gynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol am y trefniadau o fis Medi ymlaen. Rydym yn parhau i gyhoeddi ar ein gwefan y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymateb i bandemig COVID-19 a'r camau sydd wedi'u cymryd gan y sector addysg. Caiff hyn ei lywio gan ohebiaeth ac ymholiadau drwy'r ganolfan pwynt cyswllt cyntaf, y mae rhai ohonynt oddi wrth blant.
18	Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plentyn a dylent bob amser ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy greu gwasanaethau cymorth i blant a rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen ar rieni i fagu eu plant.	Rydym yn cydnabod bod cyfathrebu rhwng y Llywodraeth, ysgolion a lleoliadau, a rhieni a gofalmwr a'u plant wedi bod yn hollbwysig drwy gydol y broses o lywio'r dull o weithredu mewn cysylltiad â chynyddu gweithredoedd mewn ysgolion a lleoliadau. Mae cyfathrebu wedi'i anelu at rieni a gofalmwr yn parhau, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol a thudalennau gwe pwrpasol penodol a negeseuon ymgyrchu.
19	(amddiffyniad rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod) Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.	I ambell blentyn gall peidio â bod yn eu hysgol neu eu lleoliad fod yn arbennig o niweidiol oherwydd natur amgylchedd eu cartref. Bydd plant wedi dod ar draws gwahanol brofiadau ac amgylcheddau cartref yn ystod 'cyfnod clo' a chyfnodau o unigedd, a chredwn y bydd dileu grwpiau cyswllt, sy'n anelu at leihau faint o amser a dreulir y tu allan i'r ysgol, yn helpu i nodi a dechrau lliniaru effeithiau negyddol. Disgwylir, felly, y bydd y polisïau a nodir uchod ac yn Adran 1 o'r asesiad effaith hwn yn mynd i'r afael yn benodol â'r erthygl hon.

		Wrth fwrw ymlaen â hyn, mae canllawiau'n atgoffa staff mewn ysgolion a lleoliadau o'u dyletswyddau diogelu Cadw dysgwyr yn ddiogel a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae rôl y person diogelu dynodedig (PDD) yn hanfodol a dylid rhoi gwybod i'r holl staff a dysgwyr pwy yw'r PDD a sut i gysylltu â nhw. Gall cysylltu ag oedolyn dibynadwy, neu'r PDD, fod yn anoddach gyda phellter cymdeithasol felly gofynnwyd i ysgolion a lleoliadau ystyried sut y gall dysgwyr siarad yn breifat. Yn y cyfnodau cynnar dylai ysgolion, lleoliadau a gwasanaethau plant barhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael y cymorth sydd ei angen. Mae gan awdurdodau lleol eisoes amrywiaeth o arferion gwaith ar waith i sicrhau y gall partneriaid diogelu gydweithio i gadw plant yn ddiogel. Mae cyfle yn awr i'r arferion gwaith hyn gael eu hatgyfnerthu ymhellach. Mae ysgolion wedi aros ar agor i blant bregus drwy gydol y cyfyngiadau diweddaraf.
23	Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac, hyd y bo modd, yn annibynnol ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.	Rydym wedi sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod ar agor i blant bregus ac mae hyn yn cynnwys y rhai sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig. Mae Awdurdodau Lleol yn parhau i flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf angen mynediad i'r ddarpariaeth hon wrth i ni gynyddu nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth ar y safle. Roedd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru am sut mae'r pandemig wedi effeithio ar fywydau pobl anabl yng Nghymru yn ystyried tystiolaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chynghrair Anghenion Dysgu Ychwanegol y Trydydd Sector. Roedd hyn yn awgrymu bod angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion anabl mewn ysgolion ac nid oeddent bob amser yn derbyn hyn yn ystod y pandemig. Gan fod ysgolion ar agor fel mater o drefn bellach, rhagwelir y bydd y cymorth ychwanegol angenrheidiol yn galluogi disgyblion i ddal i fyny, ond byddai parhau i

		ddefnyddio grwpiau cyswllt ar eu ffurf bresennol yn gwaethygu pethau, er enghraifft pan fydd angen anfon disgyblion sy'n agored i niwed adref o'r ysgol i hunanynysu.
24	Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, ac amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a lles fel y gall plant aros yn iach.	Mae ein Canllawiau Gweithredol yn cydnabod, pan fyddwn yn cyfeirio at iechyd a lles, fod hynny'n mynd y tu hwnt i beryglon corfforol heintio gyda COVID-19. I ddysgwyr, bydd goblygiadau ehangach corfforol, meddyliol, emosiynol ac o ran cydberthynas, ymbellhau cymdeithasol, y cyfnod clo a phrofedigaeth bosib yn llawer mwy perthnasol.
28	Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg.	Mae'r hawl hon wedi bod yn un o'r sbardunau sylfaenol, o ran y penderfyniad i gynyddu gweithredoedd mewn ysgolion a lleoliadau. Mae'r canllawiau dysgu yn egluro'r disgwyliadau sydd ar ymarferwyr. Yn ogystal â'r pwyslais ar les, gofynnwyd i ysgolion a lleoliadau, fel sy'n briodol, ddechrau ehangu dysgu ac addysgu a chefnogi pontio fel bod dysgwyr (cyn belled ag y bo modd) yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf ac yn gallu ymgysylltu â dull dysgu cyfunol. Disgwylir i ysgolion a lleoliadau ddatblygu dysgu a dulliau newydd i ddiwallu anghenion eu holl ddysgwyr mewn ymateb i'r pandemig, gan roi sylw penodol i'r rhai nad ydynt yn gallu mynychu darpariaeth ar y safle am ba bynnag reswm. Mae'r canllawiau'n glir bod gan bob dysgwr hawl i gael cefnogaeth yn eu dysgu gan weithwyr proffesiynol dibynadwy ar hyn o bryda chredwn mai'r ffordd orau o ddarparu hynny yw trwy addysgu a dysgu ar y safle.
29	Nodau addysg Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a	Mae'r erthygl hon wrth wraidd addysg yng Nghymru, a 4 diben y Cwricwlwm i Gymru sy'n sail i'n rhaglen o ddiwygiadau addysg. Mae ysgolion a lleoliadau wedi datblygu dulliau dysgu

	galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddo annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.	newydd i ddiwallu anghenion eu dysgwyr mewn ymateb i'r pandemig. Wrth wneud hynny, mae ymarferwyr yn cael eu cyfeirio at yr ystod lawn o ganllawiau cwricwlwm sydd bellach ar gael iddynt, gan gynnwys sut y gall Cwricwlwm Cymru gefnogi dysgwyr ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cwricwlwm i Gymru ar 26 Ionawr 2021 ac fe gafodd y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu Gydsyniad Brenhinol fis Ebrill 2021. Gan gydnabod heriau penodol a wynebwr gan ysgolion uwchradd yn ystod y pandemig, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Gorffennaf y byddai gan ysgolion uwchradd yr opsiwn i barhau â'u cynlluniau presennol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd, i ddechrau yn 2022 gyda Blwyddyn 7, neu ddechrau yn 2023 gyda Blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd.
30	Plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd eu teulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif bobl y wlad lle maent yn byw ai peidio.	Ni fwriedir i'r penderfyniadau polisi a nodir yn yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant gael effaith gadarnhaol na negyddol o ran yr erthygl hon. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod rhai effeithiau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau penodol o bobl sy'n deillio o'r trefniadau gweithredol mewn ysgolion a lleoliadau. Mae'r canllawiau dysgu yn amlinellu y bydd angen i ddarparwyr ystyried sut i gefnogi pob dysgwr. Bydd sgysiau am sut maent yn teimlo o ran y gofynion newydd o fis Medi yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod hwn a dylai staff annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos o ran dysgu'r Gymraeg ac o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn cydnabod bod iaith y cartref grwpiau o ddysgwyr yn wahanol i'w prif iaith addysg (Cymraeg a Saesneg) a bydd dychwelyd yn llawn i addysgu ar y safle o fudd sylweddol.
31	Hamdden, chwarae a diwylliant	Dylai'r effaith negyddol ar les diwylliannol fel y gwelwyd yn ystod cyfnod diweddaraf y cyfyngiadau ddechrau llacio wrth i addysgu

	Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.	wyneb yn wyneb gynyddu. Bu llai o gyfleoedd hefyd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, y celfyddydau, chwaraeon, hamdden a'r rhan fwyaf o weithgareddau eraill oherwydd cyfyngiadau fel grwpiau cyswllt ac amseroedd dechrau gwahanol. Rydym yn disgwyl y bydd y llacio yn hyn o beth o fis Medi ymlaen yn creu mwy o symudedd cymunedol a chyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau o'r fath. Mae chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cynnig cyfleoedd eang i gefnogi dysgu yn ogystal â gwella perthnasoedd dysgwyr, eu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. Felly, dylid eu hystyried yn ganolog i unrhyw ddull o gynllunio ystyriaethau ar gyfer ysgolion.
--	---	---